

Brig y Goeden



Shorts Jyngl

IRENE RAWNSLEY



Shorts Jyngl


IRENE RAWNSLEY

Lluniau gan Tony Kerins



DRAKE

1



Pnawn dydd Gwener oedd hi. Roedd plant
Dosbarth 3 wedi gwisgo’u cotiau ac yn aros
mewn rhes i fynd adref. Roedd Llew yn y cefn
oherwydd fod sip ei anorac wedi mynd yn sownd.
Roedd o mor brysur gyda’r sip, bu bron iddo gollu
beth roedd Mr Puw yr athro yn ei ddweud.



“Dyma llythyr i chi i gyd,” meddai Mr Puw.
“Peidiwch â’i golli a pheidiwch ag anghofio ei roi
i’ch rhieni. Newyddion da sydd ynddo fo.”

Roedd Llew yn ysu am gael gwybod beth
oedd y newyddion da. Rhuthrodd ar draws y
maes chwarae i gyfarfod ei fam.

“Brysia! Agor y llythyr yma,” meddai. “Mae
Mr Puw yn dweud fod newyddion da ynddo fo.”

“Dweud helo wrtha i gynta!” chwaddodd ei
fam, ond agorodd y llythyr. Darllenodd o a
dweud wrtho, “Mae Dosbarth 3 yn mynd i gael
gwersi pêl-droed. Wythnos nesa. Cewch chi
fenthyg esgidiau gan yr usgol.”



“Waw!” gwaeddodd Llew. “Pêl-droed go iawn!
Betia i y sgoria i un deg pump o gôls!”

Rhoddodd ei fam y llythyr yn ei bag.

“Beth am grys rhesog a sanau? Ga i ddillad
pêl-droed go iawn?” crefodd Llew.

“Cawn ni weld,” meddai Mam.



Gartref fedrai Llew ddim tynnu’i anorac ac
roedd yn rhaid i’w fam ei helpu.

“Dwi’n falch na thorraist ti’r sip. Fedra i ddim
prynu côt arall iti tan y mis nesa,” meddai.

“Dydw i ddim eisio côt newydd,” meddai
Llew, “ond ga i ddillad pêl-droed go iawn? Os
gweli di’n dda?”

“Gofyn imi ar ôl te,” meddai ei fam.



Cremnogau efo jam ac afal gawson nhw i de.
Cremnogau oedd hoff fwyd Llew. Ond heddiw
llyncodd bopeth yn gyflym. Gollyngodd ei gyllell
a fforc yn swnllyd.

“Addewaist ti siarad am ddillad pêl-droed ar
ôl te,” meddai.



Estynnodd Mam lythyr Mr Pw o'i bag.


“Bydd pob plentyn angen hen grys T a sanau,”
darllenodd.

“Dim dillad pêl-droed go iawn?” meddai Llew.

“Nage, mae'n ddrwg gen i. Heblaw am shorts.
Mae Mr Pw eisio ichi i gyd gael shorts newydd.
Awn ni i'r farchnad fory i chwilio am rai.”




Doedd Llew ddim yn fodlon ond roedd yn adnabod ei fam. Roedd hi wedi penderfynu a dyna ni. Edrychodd ar ei luniau o arwyr pêl-droed trwsiadus. “Betia i fod ganddyn nhw ddillad pêl-droed go iawn o’r cychwyn cynta,” meddylodd. “Nid hen grysau T.”




Y noson honno gorweddai yn effro yn meddwl. Byddai’n gofalu bod ei fam yn prynu shorts pêl-droed. Roedd o eisiau shorts pêl-droed gwyn go-iawn. Wedyn gwyddai y medrai sgorio llawer o gôls.

2



Ar ôl brecwast drannoeth cychwynnon nhw i brynu'r shorts newydd. Roedd y farchnad ddwy stryd draw o ble roedd Llew yn byw. Ar y ffordd gwelso'n nhw Cai a Siôn o Ddosbarth 3. Roedd Cai a Siôn yn byw wrth ymyl Llew. Roedden nhw'n cicio pêl ar ochr y ffordd.



Dyrnodd Siôn y bêl draw ato a chiciodd Llew hi'n ôl.

“Tisio chwarae?” galwodd Cai.

“Fedra i ddim. Ddim rŵan. Rydw i'n mynd efo Mam i brynu shorts pêl-droed newydd.”

“Rydan ni wedi cael rhai,” gwaeddodd Cai.



Roedd y farchnad yn llawn iawn. Edrychai pawb ar y pentyrrau uchel o ffrwythau a llysiau ar y stondinau. Roedd yno esgidiau a dillad ar werth o dan doeau cyfnas rhesog. Gwerthai un dyn shorts.

“Dowch i brynu shorts jyngl!” gwaeddodd.

Gwisgai het wellt lydan ar ei ben a phâr anferth o shorts jyngl dros ei drowsus. Arbyn nhw roedd llun mwncïod yn gwenu ar ben coed mawr gwyrdd.

“Mawr neu fach, maen nhw’n ddigon rhad,” meddai’r dyn.

“Dim diolch,” meddai Llew. “Rydw i’n cychwyn gwersi pêl-droed yr wythnos nesaf. Rydw i angen shorts pêl-droed iawn.”




Tynnodd ar law ei fam. Gwthiodd y ddau drwy'r dyrfa yn chwilio am shorts pêl-droed iawn. Cawson nhw hyd i ddigon o shorts oedd yn rhy fawr ac un pâr bychan gwyn oedd yn rhy fach. Pan gawson nhw hyd i rai yn ffitio Llew roedden nhw'n rhy ddrud o lawer.



“Bydd raid inni brynu'r shorts jyngl,” meddai Mam. “Mae'r lliwiau'n hyfryd. Bydd yn well gen ti nhw na'r rhai gwyn dwi'n siwr.”

Gwnaeth Llew stumiau. “O, Mam!” meddai. “Ond –”

“Dim ond,” meddai ei fam.



Yn ôl â nhw'n araf at y dyn yn gwerthu shorts jyngl. Roedd y pentwr ar ei stonin wedi mynd yn llai o lawer.

“Gwyddwn i y byddet ti'n dod yn ôl. Rydw i wedi cadw pâr ar dy gyfer di,” meddai'r dyn.

Daliodd bâr o shorts jyngl yn erbyn trowsus Llew.



“Ffitio'n berffaith!” meddai gan wenu.

Agorodd mam Llew ei phwrs a thalodd am y shorts. Rhoddodd y dyn nhw mewn bag a'u rhoi i Llew.

“Dyna ti, ngwas i. Hwyl iti wrth eu gwisgo nhw!”



Wenodd Llew ddim. “Hoffwn i petaen nhw’n shorts iawn,” meddai.

“Shorts jungl ydi’r pethau nesaf at hynny,” meddai ei fam.



Ar y ffordd adref gwelsoh nhw Tesni a Pam o Ddosbarth 3 yn cicio pêl yn erbyn ffens. Roedden nhw’n byw yn yr un stryd â Llew.


“Rydan ni’n dyheu am y wers bêl-droed,” medden nhw. “Mae gynnon ni shorts newydd!”

“A finnau,” meddai Llew. Ond wnaeth o ddim agor ei fag i’w dangos iddyn nhw.

3




Pnawn dydd Llun roedd Dosbarth 3 yn aros am eu gwers bêl-droed gyntaf. Roedd pawb yn llawn cyffro ac yn swnllyd iawn, yn swingio eu bagiau pêl-droed. Roedd Llew yn y cefn â'r shorts jyngl yn ei fag. Doedd o ddim eisiau'u gwisgo.



Daeth Mr Puw i'r ystafell newid yn cario llond bocs mawr o esgidiau pêl-droed. Buon nhw hydoedd yn cael hyd i esgidiau i ffitio pawb.


“Brysiwch i wisgo’ch dillad pêl-droed amdanoch,” meddai.

Aeth Llew i newid mewn cornel y tu cefn i'r drws.



Pan oedd pawb yn barod gwaeddodd Mr Puw,
“Pawb i sefyll mewn rhes!”

Gofalodd Llew ei fod yn sefyll yn y cefn eto.
Doedd o ddim eisiau i neb weld ei shorts jungl a
chuddiodd y tu cefn i Cai. Edrychodd i lawr i
weld beth roedd Cai yn ei wisgo a synnu’n arw.



Gwisgai Cai shorts jungl hefyd! Rhoddodd
Llew bwriad iddo yn ei gefn a dweud, “Mae gen i
shorts fel’na!”

“Oes,” meddai Cai. “Ac mae gan Pam a Tesni
a Siôn rai hefyd!”




Roedd o'n dweud y gwir. Roedd y ffrindiau o stryd Llew i gyd yn gwisgo shorts jungl. Gwenodd Mr Puw.

“Pump o blant gyda’r un math o shorts!” meddai. “Mae bownd o fod yn record!”



“Ac rydan ni i gyd yn byw yn Stryd y Bryn,” meddai Llew.

“Felly cewch chi i gyd chwarae i’r un tîm...tîm *Llewod y Bryn!*”



Wedi i Mr Puw ddewis tri tîm arall aethon nhw i'r cae. Buon nhw'n chwarae pêl-droed pump bob ochr nes roedd hi'n amser mynd adref. Curodd tîm *Llewod y Bryn* y lleill i gyd. Nhw oedd y pencampwyr meddai Mr Puw. Sgoriodd Llew bum gôl.



Yn yr ystafell newid tynnodd y plant eu hesgidiau mwdlyd a newid eu dillad.

“Gofalwch fod y dillad wedi’u golchi erbyn dydd Llun nesaf,” meddai Mr Puw. “Peidiwch â’u gadael i’ch mam ei wneud. Golchwch nhw gynted ag yr ewch chi adref rhag ichi anghofio.”



Roedd Llew yn barod o flaen pawb a rhedodd at ei fam wrth y giât. Dywedodd wrthi iddo sgorio pum gôl ac am *Llewod y Bryn*.

“Well inni frysio adref,” meddai Llew. “Mae’n rhaid imi llunau fy sgidiau a golchi fy shorts!”

Ar y ffordd adref i gael te yn hwyrach, gwenodd Mr Puw wrtho’i hun yn y car. Ar leiniau dillad Stryd y Bryn roedd pum pâr o shorts jyngl yn chwythu yn y gwynt.



Am yr awdur

Rydw i'n byw yn Dales Efrog ac ers pan oeddwn yn fach, rydw i wedi bod wrth fy modd yn ysgrifennu barddoniaeth a storïau. Y dyddiau yma byddaf yn ysgrifennu mewn ystafell yn edrych allan ar gaeau a bryniau ac yn aml daw ein cathod du a gwyn, Silver a Fagley, ataf. Gadawyd Fagley pan oedd yn gath fach a chafodd ei enwi ar ôl y bws cyntaf aeth heibio inni ar ein ffordd adref.



Mae fy mhlant i wedi tyfu i fyny erbyn hyn ond mae gen i ddau wŷr, Luke a Peter, sy'n dangos diddordeb mawr yn fy llyfrau.

Llyfrau Brig y Goeden eraill ar y lefel hon:

Y Sgwinc gan Rita Ray

Bosgi Stryd y Coed gan Rita Ray

Teigr Amryliw Mr Stofflys gan Robin Mellor

Y Merched Mewn Mwgwd gan John Coldwell

Tric y Merched Mewn Mwgwd gan John Coldwell

Shorts Jyngl

Mae Llew wrth ei fodd yn chwarae
pêl-droed. Hoffai gael shorts
pêl-droed newydd. Gaiff o rai erbyn
y wers yn yr ysgol?



ISBN 0 86174 433 0

DRAKE

ISBN 0-86174-433-0



9 780861 744336

Brig y Goeden



Coeden
Ddarllen
Rhydychen

Cam 10